


# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

**23/11/2018**

**<u>Well-being afternoon: NSPCC's PANTS rule:</u>**

Dear Parent/Carer,

As part of our well-being afternoons, next week's session will be **'The body / Talk pants and stay safe'.** As part of this session, the pupils will be learning about different parts of the body and their names and the NSPCC's underwear rule. *(Please refer back to the growing up booklet which was sent home on November 5th. You can find a copy of this on the school website.)*

During next Wednesday's session, we will aim to teach our pupils the following important safety skills without giving explicit information or telling scary stories. We will be teaching the pupils the NSPCC's underwear rule using 'PANTS' acrostic, which is like a green cross code for staying safe from sexual abuse.

**PANTS stands for:**

- **P**rivates are private
- **A**lways remember your body belongs to you
- **N**o means no
- **T**alk about secrets that upset you
- **S**peak up, someone can help

The lessons will introduce a range of ideas, all delivered in a way that's fully age appropriate. These include:

- "appropriate" and "inappropriate" touching
- your child's right to say no to things that make them feel upset or uncomfortable
- naming parts of the body
- who your child can turn to if they ever feel upset or worried.

If you would like to know more about the NSPCC's campaign and see how you can help keep your child safe in partnership with the school, more information can be found at www.nspcc.org.uk/underwearrule . You can also find the PANTS parent pack in the 'School Letters' section of the school website. If you have any questions or concerns, please contact me at the school.

Diolch / Thank you, Miss Passmore.






Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

**23/11/2018**

**Prynhawn Lles: Rheol Pants yr NSPCC**

Annwyl Riant / Warchodwr,

Fel rhan o'n prynhawniau lles, y thema ar gyfer ein sesiwn wythnos nesaf yw **'Y Corff / Siarad pants a chadw'n ddiogel**'. Fel rhan o'r sesiwn hon, bydd y disgyblion yn dysgu am wahanol rannau o'r corff a'u henwau a byddant yn dysgu am reol pants yr NSPCC. *(Cyfeiriwch yn ôl at y llyfryn 'tyfu lan' a gafodd ei ddanfon adref ar Dachwedd 5. Gallwch ddod o hyd i gopi o'r pecyn ar wefan yr ysgol hefyd.)*

Yn ystod sesiwn ddydd Mercher nesaf, byddwn yn ceisio addysgu'r sgiliau diogelwch pwysig canlynol i'r disgyblion heb roi gwybodaeth benodol neu adrodd straeon brawychus iddynt. Byddwn yn addysgu rheol pants yr NSPCC gan ddefnyddio cerdd acrostig 'PANTS' sy'n debyg i god gwyrdd ar gyfer aros yn ddiogel rhag gael cam-drin yn rhywiol.

Ystyr bob llythyren ar y gerdd **PANTS** yw:

- **P**reifats yn breifat
- **A** chofia mai dy gorff di yw e
- **N**a yw na
- **T**eimlo'n ypset am gyfrinach? Dweda wrth rywun ti'n ymddiried ynddo
- **S**onia wrth rywun. Gallan nhw dy helpu.

Bydd y gwersi'n cyflwyno amrywiaeth o syniadau, i gyd wedi'u cyflwyno mewn ffordd sy'n briodol i'r oedran cyfan. Mae'r rhain yn cynnwys:

• cyffwrdd "priodol" ac "amhriodol"
• hawl eich plentyn i ddweud na wrth bethau sy'n gwneud iddo deimlo'n ofidus neu'n anghyfforddus
• enwi rhannau o'r corff
• at bwy y gall eich plentyn droi os yw byth yn teimlo'n ofidus neu'n bryderus.

Os hoffech wybod mwy am ymgyrch yr NSPCC a gweld sut y gallwch helpu i gadw eich plentyn yn ddiogel mewn partneriaeth â'r ysgol, gellir cael mwy o wybodaeth wrth ymweld â'r wefan hon www.NSPCC.org.uk/underwearrule Gallwch hefyd ddod o hyd i becyn rhieni PANTS yn adran 'Llythyron Adref' o wefan yr ysgol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, cysylltwch gyda fi yn yr ysgol.

Diolch, Miss Passmore.

